



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau

Seiliedig ar ddeddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus weithredu datblygu cynaliadwy drwy bennu (a chyhoeddi) amcanion llesiant wedi eu dylunio i facsimeiddio cyfraniad tuag gyflawniad pob un o'r nodau llesiant. Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) hefyd asesu cyflwr llesiant yn eu hardal, a gosod amcanion llesiant yn eu Cynllun Llesiant lleol, i facsimeiddio cyfraniad BGCau tuag at wireddu'r nodau llesiant. Gall y bydd y nodau llesiant a nodir gan FGCau mewn cynlluniau lleol yr un fath â'r amcanion y bydd cyrff cyhoeddus unigol wedi penderfynu eu mabwysiadu. Mae'r ddolen Ganllaw ar y Fframwaith yn egluro ei bwrpas a sut y dylid ei ddefnyddio.

(Ni ddylid ei atgynhyrchu heb ganiatâd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)

1

Amcanion Llesiant

(Cyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus)

Edrychwch i weld oes yna gysylltiad rhwng eich prosiect/
gweithgaredd arfaethedig ag Amcanion a Chynlluniau'r
Cyrff Cyhoeddus a/neu y Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus perthnasol - os yn berthnasol ystyriwch yr
adran isod i sicrhau y gall wneud cyfraniad cadarnhaol; os
nad yw'n berthnasol sicrhewch nad yw eich gweithgaredd
arfaethedig chi yn gwrthdaro a'r Amcanion Llesiant.

Llesiant Lleol	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Adolygwch y cynllun llesiant lleol: edrychwch ar y darlun mwy a chysylltwch y dotiau</p>	<p>Seiliwch gychwyniad eich prosiect at ddealltwriaeth o lesiant eich ardal:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn eich asesiad llesiant lleol o'r ardal? ▪ Ble fydd y prosiect yn cael ei reoli? Beth ddywed yr asesiad llesiant o'r ardal am y lleoliad? ▪ Nodwch y cysylltiadau perthnasol â'r cynllun llesiant lleol – sut fydd eich prosiect yn cynorthwyo hwn, yr amcanion llesiant lleol a'r camau i ddiwallu'r amcanion? 	<p>Ewch yn ôl at y materion a nodwyd gennych yn y cynllun llesiant lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Sut fedrwch chi facsimeiddio cyfraniad eich prosiect tuag at lesiant yr ardal leol a chyfrannu at ddarpariad y cynllun llesiant lleol? ▪ Twriwch yn ddyfnach - a oes yna bethau eraill y gallai'r prosiect gyfrannu tuag ato er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru? (Bydd edrych ar y 7 nod yn eich helpu i wneud hyn - gweler isod y tabl ar y nodau..)
<p>Amcanion llesiant lleol</p>	<p>Ystyriwch bob un o'r amcanion llesiant lleol a disgrifiwch sut y gallai eich prosiect gynorthwyo/gyfrannu ar y rhain.</p> <p><i>Sut fedrwch chi sicrhau:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bod eich prosiect yn medru cyfrannu'n gadarnhaol at yr amcanion ▪ Nad yw eich prosiect yn taseilio'r fath amcanion <p>Petai eich prosiect yn medru cael effaith ar bobl hŷn, plant neu bobl â nodweddion gwarchoddedig, mae yna ganllawiau pellach ar gael oddi wrth Gomisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Hawliau Dynol.</p> <p>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Comisiynydd Plant Cymru Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</p>	<p>Ewch yn ôl at eich amcanion llesiant lleol, a sicrhewch eich bod wedi ystyried sut y gallwch facsimeiddio cyfraniad eich prosiect tuag at amcanion perthnasol, ac yn eu tro, y 7 nod llesiant.</p>

Amcanion Cyrff Cyhoeddus	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Ystyriwch bob amcan llesiant yn eu tro</p>	<p>Nodwch pa amcanion sy'n uniongyrchol berthnasol i'ch prosiect.</p> <ul style="list-style-type: none">Beth yw prif elfennau'r amcanion sy'n berthnasol i'ch prosiect, a sut fydd y prosiect yn cynorthwyo'r rhain? <p>Sut fedrwch chi sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none">Bod eich prosiect yn medru cyfrannu'n gadarnhaol at yr amcanion (y ddyletswydd yw 'cymryd pob cam rhesymol' i gwrdd â'r amcan)Nad yw eich prosiect yn tanseilio'r fath amcanion. <p>Nodwch unrhyw orgyffwrdd ag amcanion llesiant lleol y BGC (uchod) – bydd mynd drwy'r pum dull o weithio (gweler y Tabl isod) hefyd yn eich helpu gyda hyn.</p>	<p>Ewch yn ôl at eich amcanion llesiant, a sicrhewch eich bod wedi ystyried sut y gallech facsimeiddio cyfraniad eich prosiect tuag at amcanion perthnasol, ac yn eu tro y 7 nod llesiant.</p>

2

Pum Dull o Weithio

Mae defnyddio'r Pum Dull o Weithio yn rhan allweddol o'r ddeddf. Rhaid eu defnyddio trwy gydol y prosiect, o ddylunio i adolygu.

Dulliau o Weithio	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Hirdymor: pwysigrwydd creu cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i warchod y gallu i gwrdd ag anghenion hirdymor.</p>	<p>Seiliwch gychwyniad eich prosiect ar ddealltwriaeth o'r modd y gallai Cymru fod yn wahanol ymhene sawl cenhedlaeth, ac ar eich gweledigaeth hirdymor (gan gyfeirio nôl at y nodau).</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwch yr hirdymor, tueddiadau'r dyfodol a senarios, heriau a chyfleoedd sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect. Gallai'r rhain fod yn gymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnegol gan gynnwys y rhai y gwyddys amdanynt (e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n dirywio), a'r rhai â lefel uwch o ansicrwydd (e.e. swyddi a sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol). <p>Gallwch gyfeirio at ystod o adnoddau yn cynnwys adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol, adroddiad Fforwm Economaidd y Byd ar Risgiau Byd-eang "Now for the Long Term" (Adroddiad Comisiwn Oxford Martin ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol) ac unrhyw wybodaeth berthnasol ar dueddiadau'r dyfodol a gynhwysir yn eich asesiad llesiant lleol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r tueddiadau hyn yn effeithio ar eich prosiect, a pha effaith fedrai eich prosiect ei gael ar y tueddiadau hyn? Sut mae eich prosiect yn lleddfu, hwyluso neu wneud y gorau o'r tueddiadau hyn? Sut fedrwch chi groesawu cyfleoedd hirdymor, gan adnabod anghenion posibl y tymor byr? (Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r pum dull o weithio i ddatrys gwrthdaro posibl) 	<p>Ewch yn ôl at y tueddiadau a nodwyd gennych ar y cychwyn</p> <p>Ystyriwch pa mor realistig ydyw'r tybiaethau sylfaenol am dueddiadau'r dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Os darganfyddir bod y tybiaethau hyn yn anghywir - pa mor ddefnyddiol yw eich prosiect i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol yng Nghymru? <p>Ystyriwch pa mor gynaliadwy fydd y prosiect dros gyfnod ei oes:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r prosiect yn cynorthwyo llesiant hirdymor pobl Cymru? A fydd y prosiect yn cynnal ei hunan, neu'n gofyn am adnoddau sylweddol ychwanegol a gwahanol? <p>Ystyriwch beth fydd yn digwydd i'r prosiect ar ddiwedd cyfnod arfaethedig ei oes:</p> <p><i>Er enghraifft:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> A ellir adennill/ailldefnyddio/ail-bwrpasu'r deunyddiau A ellid cadw capasiti?

Dulliau o Weithio	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Atal:</p> <p>gallai atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.</p>	<p>Cychwynnwch drwy roi ystyriaeth gyffredinol i'r mathau o broblemau y gallai eich prosiect helpu i'w hatal yn y dyfodol e.e. cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, amgylcheddol neu rywbeth penodol.</p> <p>Beth yw'r achosion sylfaenol y gallai eich prosiect helpu i fynd i'r afael â hwynt?</p> <p>Sut mae eich prosiect yn cynorthwyo'r broses o chwalu cylchoedd negyddol ac/neu heriau sy'n pontio cenedlaethau megis tlodi, iechyd gwael, niwed amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth? Cyfeiriwch at yr asesiadau llesiant lleol.</p> <p>Sut fedrai eich prosiect leihau ei effeithiau negyddol ei hunan,.e.e. leihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, allyriadau ac ansawdd aer, cydlynid cymdeithasol/cymunedol.</p>	<p>Ewch yn ôl at y problemau a'r cylchoedd negyddol a nodwyd gennych, y gallai eich prosiect fynd i'r afael â hwynt.</p> <p>Ystyriwch dybiaethau sylfaenol eich prosiect.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ydy eich prosiect yn dibynnu ar fodolaeth ymyriadau eraill i fynd i'r afael ag achosion cylchoedd hirdymor ochr yn ochr â'ch prosiect? ▪ Beth yw'r gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg rhwng gwahanol agweddau ar lesiant a chynaliadwyedd a sut mae'r rhain yn cael eu datrys?

Dulliau o Weithio	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Integreiddio:</p> <p>ystyried pa effaith fedr amcanion llesiant cyrff cyhoeddus ei gael ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>Cychwynnwch drwy ystyried sut fedrai amcanion eich prosiect effeithio ar amcanion llesiant eich sefydliad ac anghenion llesiant cyrff cyhoeddus eraill a chynlluniau llesiant lleol (gweler Rhan 1 uchod).</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr Aseiad Llesiant Lleol perthnasol (a gynhyrchwyd gan y BGC lleol) ac/ neu'r Cynllun Llesiant (gweler Rhan 1 uchod)? ▪ Ydych chi'n deall y dyletswyddau a pholisïau eraill ar lefel lleol a chenedlaethol a allai fod yn berthnasol i'ch prosiect? Sut fedrai eich prosiect gysylltu gwahanol bolisïau cyhoeddus/agendâu strategol, i chwalo gwaith seilos a chynhyrchu cyd-fanteision e.e. sut fedr prosiect trafndiaeth gynorthwyo gwelliannau mewn iechyd, diwylliant, diweithdra. Sut fedr eich prosiect gynorthwyo dyletswyddau eraill yn cynnwys er enghraifft Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Confensiwn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), Safonau'r Iaith Gymraeg? <p>Arweiniad pellach, e.e. Mae Pecyn Cymorth ar WFGA ac ymrwymiad y Comisiynydd Plant i UNCRC ar gael ar:</p> <p>Comisiynydd Plant Cymru Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dyno Comisiynydd y Gymraeg Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pa gamau ymarferol fyddwch chi'n eu cymryd i integreiddio eich prosiect gyda chynlluniau a strategaethau presennol cyrff cyhoeddus eraill ar draws y saith nod llesiant? ▪ Ystyriwch bob un o'r saith nod llesiant a nodwch unrhyw risgiau a fedrai effeithio'n negyddol ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill (gan nodi bod effeithiau negyddol y debygol o gynyddu dros amser) ▪ Ailadroddwch yr ymarfer gan edrych am effeithiau cadarnhaol a'r potensial o weld manteision niferus (Bydd Rhan 3 isod ar y Nodau yn eich helpu ymhellach). 	<p>Ewch yn ôl i weld sut mae eich prosiect yn integreiddio gydag amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.</p> <p>Ystyriwch effaith y prosiectau ar y saith nod llesiant (Bydd Rhan 3 isod yn eich helpu i wneud hyn).</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pa nodau llesiant mae ein prosiect yn cyfrannu'n uniongyrchol atynt? ▪ Sut fedr eich prosiect facsimeiddio ei gyfraniad tuag at bob un o'r nodau drwy alinio i strategaethau ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus perthnasol? ▪ Pa fesurau sydd yn eu lle i sicrhau bod y prosiect yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at y saith nod llesiant drwy gydol ei fywyd?

Dulliau o Weithio	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Cydweithio:</p> <p>cydweithio gydag unrhyw berson (neu wahanol rannau o'r corff ei hunan) a fedrai helpu'r corff i gwrdd ag amcanion llesiant.</p>	<p>Cychwynnwch drwy ystyried pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol o ystod o sectorau a disgyblaethau perthnasol a fedrai eich cynorthwyo i ddatblygu'r prosiect hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Nodwch y rhanddeiliaid allweddol hyn yn gynnar fel y gall cydweithio fod yn gynhyrchiol ac arwyddocaol. ▪ Ydy eich ystod o rhanddeiliaid yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn ogystal â rhai 'pobl anarferol' a allent ddod â syniadau a datrysiadau i'r bwrdd, nad oeddech cyn hyn wedi meddwl amdanynt? ▪ Sut fydd eich rhanddeiliaid allweddol yn ymgyfrannu yn natblygiad y prosiect, ac ym mha gyfnod o'r prosiect? 	<p>Ewch yn ôl at eich rhestr rhanddeiliaid.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pa grwpiau/cyrff ydych chi wedi eu nodi sy'n gweithio tuag at nodau tebyg parthed cynaliadwyedd a llesiant? ▪ Pa fecanweithiau sydd yn eu lle i sicrhau bod y cydweithio hwn yn effeithiol? ▪ Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y cydweithio'n parhau drwy fywyd y prosiect?

Dulliau o Weithio	Datblygiad cychwynnol y prosiect	Adolygiad o'r prosiect
<p>Ymgyfraniad:</p> <p>pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn gwireddu'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.</p>	<p>Cychwynnwch drwy ystyried i ba raddau yr ydych yn deall anghenion a phrofiadau bywyd y dinasyddion a fydd yn cael eu heffeithio gan y prosiect hwn, a sut y byddwch yn defnyddio hyn i drwytho ystyriaeth o'r angen hwn ar gyfer y prosiect. Ystyriwch pa ddulliau y gallech eu defnyddio i fanteisio ar brofiadau bywyd a phwy allai eich helpu gyda hyn. Gall Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd fod yn fan cychwyn da.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ystyriwch sut y byddwch yn ymgysylltu â rhanddeiliaid â gwahanol fathau o arbenigedd, gwybodaeth a chefnidiroedd, yn cynnwys sut y byddwch yn deall anghenion y boblogaeth ehangach a'r rhai hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan grwpiau buddiant penodol. ▪ Pa mor dda ydych chi'n deall anghenion a heriau'r bobl yn yr ardal? Bydd Asesiadau Llesiant yn rhoi peth mewnwelediad. ▪ Nodwch y rhanddeiliaid allweddol a effeithir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y prosiect. Sut fydd rhanddeiliaid yn ymgyfrannu yn y dasg o nodi'r angen am y prosiect hwn a sut fydd yn cael ei drwytho gan eu hanghenion? ▪ Sut fydd rhanddeiliaid allweddol yn ymgyfrannu yn nyluniad a datblygiad y prosiect? ▪ Sut fydd rhanddeiliaid allweddol yn ymgyfrannu yn narpariaeth ac/neu drosolwg o'r prosiect? 	<p>Ewch yn ôl i weld sut fydd eich prosiect yn ennyn ymgyfraniad rhanddeiliaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Sut mae eich prosiect wedi cael ei lunio gan rhanddeiliaid allweddol a effeithir gan y prosiect, ac yn arbennig eu hanghenion a'u heriau? ▪ Sut fydd rhanddeiliaid allweddol a effeithir gan y prosiect yn parhau i ddylanwadu ar y prosiect drwy gydol ei fywyd?

3

Saith Nod Llesiant

Rhaid i'r nodau llesiant gael eu hystyried fel set integredig o saith, a dylai'r amcanion llesiant (a ystyrir uchod) facsimeiddio eu cyfraniad tuag at bob un o'r saith.

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Ffyniannus:</p> <p><i>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd bydeang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus.</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at Gymru arloesol dylem fod yn meddwl am un â ganddi sector busnes newydd ffyniannus, sy'n cynorthwyo arloesedd cymdeithasol ac entrepreneuriaid.</p> <p>Ystyriwch sut y gall arloesedd gael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd gwael, gan ddatblygu busnesau mewn ardaloedd sydd wedi dioddef dirywiad economaidd, a chyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd ledled Cymru.</p>	<p>Penderfynyddion iechyd gwael;</p> <p>tyfu busnesau mewn ardaloedd sydd wedi dioddef dirywiad economaidd;</p> <p>cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd ledled Cymru.</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn gwthio darpariaeth seilwaith i gyfeiriad mwy cynaliadwy, ac arloesol?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer sectorau busnes newydd a chynhyrchu nwyddau cyhoeddus?</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn arloesi i gwrdd â'r heriau, a manteisio ar y cyfleoedd a bennir gan y tueddiadau perthnasol a nodwyd wrth feddwl am yr 'hirdymor' yn y Dulliau o Weithio?</p> <p>Ydy eich prosiect yn fodwlar, ac a ellir ei addasu i Gymru yn y dyfodol sydd wedi newid?</p>
	<p>Wrth weithio tuag at Gymru gynhyrchiol dylem fod yn meddwl am un sy'n creu nwyddau a darparu gwasanaethau i gwrdd â'i hanghenion ei hunan, yn ogystal â datblygu marchnadoedd allforio cryf.</p> <p>Ystyriwch gynaliadwyedd amgylcheddol, llesiant cymdeithasol a diwylliannol.</p>	<p>Cynaliadwyedd amgylcheddol a thwf gwyrdd; cynorthwyo cymunedau ac economïau lleol cydnerth.</p>	<p>Sut fydd hyn yn cynorthwyo twf cadwyni cyflenwi lleol a sectorau busnes carbon isel?</p> <p>Sut fydd y prosiect yn mynd i'r afael ag anghenion presennol yn ogystal â chydabod anghenion cenedlaethau'r dyfodol?</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn cynorthwyo cynhyrchiant e.e. adeiladu cadwyni cyflenwi lleol, cynorthwyo cydnerthedd economaidd drwy amrywiaeth, neu ddarparu ynni drwy'r sector ynni adnewyddol ffyniannus?</p> <p>Petai'r prosiect hwn yn cael effeithiau negyddol ar rannau o'r economi (e.e. lleihad mewn costau trawsgludo nwyddau'n niweidio hyfywedd y gadwyn gyflenwi leol) sut fedrech chi feddwl am ddatrys unrhyw wrthdaro posibl?</p>

Ffyniannus:

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd bydeang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus.

Gallai symud tuag at **Gymru carbon isel olygu economi sy'n cael ei sbarduno gan dwf gwyrdd, gan gynorthwyo ffyrdd o fyw carbon isel.**

Ystyriwch yr angen i ddatblygu sgiliau, arloesedd a chyfflogaeth.

Angen i ddatblygu sgiliau a chyfflogaeth;

economi arloesol, ystywyth ac sy'n medru addasu i newid yn y dyfodol.

Sut fydd y prosiect hwn yn annog diwydiant a llywodraeth i symud tuag at dwf economaidd carbon isel a gwyrdd?

Pa ymddygiadau sydd, neu nad ydynt yn cael eu hannog gan y prosiect hwn? e.e. a yw'n annog y defnydd o geir preifat? A yw'n cynyddu darpariaeth gwasanaethau lleol? A yw'n cynyddu darpariaeth gwasanaethau lleol? A yw'n cynorthwyo economi lle mae swyddi wedi eu lleoli lle mae pobl yn byw, yn hytrach na dim ond mewn dinasoedd mwy? A yw'n annog pobl a busnesau i brynu'n lleol?

Sut fydd y prosiect hwn yn helpu neu'n rhwystro pobl i fyw bywydau carbon isel? e.e. gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, cynyddu cyflenwad ynni adnewyddol lleol a lleihau ôl troed carbon cartrefi ac adeiladau?

Wrth weithio tuag at **Gymru sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol a chymesur** dylem fod yn meddwl am un sy'n adeiladu effeithlonrwydd i mewn i ddylunio (e.e. lleihau carbon sylfaenol; **adeiladu effeithlonrwydd ynni i mewn i ddylunio**) a **rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio adnoddau sy'n gyfyngedig yn fyd-eang.**

Ystyriwch sut y byddwch yn lleihau ôl troed ecolegol Cymru ac yn cyrchu deunyddiau yn lleol. Hefyd ystyriwch sut y gallwch weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i ennill nodau ar y cyd a dosbarthu adnoddau yn fwy effeithlon.

Mae angen lleihau ôl troed ecolegol Cymru a chyrrchu deunyddiau'n lleol;

gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i ennill nodau ar y cyd fel y gellir dosbarthu adnoddau'n fwy effeithiol.

Mewn cyd-destun lle mae adnoddau ariannol, ecolegol a materol yn gyfyngedig, a yw'r prosiect hwn yn cynnig datrysiad cyfrifol i'r problemau sy'n codi?

A ystyriwyd adnoddau amgen llai dwys ac os felly ym mha fodd y maent yn rhagori?

Sut fydd dyluniad y prosiect hwn yn defnyddio adnoddau'n effeithlon a chymesur?

Er enghraifft:

- Sut fydd hyn yn integreiddio technegau cynhyrchu carbon isel a lleihau'r carbon sy'n gymaint rhan o'r deunyddiau a ddefnyddir?
- Sut fydd yn lleihau'r defnydd o adnoddau cyfyng? Sut fydd yn magsimeiddio'r defnydd o adnoddau lleol a chadwyni cyflenwi?
- Sut fydd yn lleihau gwastraff a'i effaith?

[Bydd sefydliadau megis Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru'n medru rhoi arweiniad a chyngor.](#)

Ffyniannus:

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd bydeang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus.

Wrth weithio tuag at wella cyflogaeth yng Nghymru dylem fod yn meddwl am leihau anghyflogaeth a thangyflogaeth yn ogystal â sicrhau **bod y swyddi sy'n cael eu creu yn rhai o ansawdd da.**

Ystyriwch rôl cyflogaeth yn y dasg o leihau anghydraddoldeb, yr angen i ddatblygu swyddi mewn diwydiannau carbon isel, a sut y gallech gydweithio gyda chyrff sgiliau/addysg yng Nghymru.

Wrth weithio tuag at **Gymru fedrus addysgedig** dylem fod yn meddwl am **fuddsoddiadau sy'n creu cyfleoedd i unigolion ac sy'n datblygu gweithlu hyblyg a chydnerth.**

Ystyriwch ddatblygiad economi carbon isel, gweithgaredd economaidd wedi ei ledaenu'n fwy cyfartal ar draws y wlad a sut y gallech gydweithio gyda sgiliau/cyrff addysgol eraill yng Nghymru.

Rôl cyflogaeth yn yr ymgais i leihau anghydraddoldeb; yr angen i ddatblygu swyddi mewn diwydiannau carbon isel;

sut fedrech chi gydweithio gyda chyrff sgiliau/addysg eraill yng Nghymru.

Economi carbon isel;

gweithgaredd economaidd wedi ei ledaenu'n fwy cyfartal ar draws y wlad;

sut fedrech chi gydweithio gyda chyrff sgiliau/addysg eraill yn ogystal â'r sector preifat yng Nghymru.

Sut fydd eich prosiect yn creu swyddi hirdymor, cynaliadwy?

Sut fydd eich prosiect yn darparu hyfforddiant a fydd yn datblygu sgiliau a gwybodaeth sydd ar farchnad lafur Cymru eu hangen yn awr ac yn y dyfodol?

Ydych chi'n creu swyddi mewn mannau lle mae lefelau uchel o anghyflogaeth a thangyflogaeth?

I ba raddau ydych chi'n creu swyddi sydd: yn cynnig oriau gwaith a thâl gweddus, boddhaol gyda chyfle i symud ymlaen, sy'n diogel a hygyrch i bobl o bob oed ac o pbob cefndir?

A fydd yr hyfforddiant a ddarperir gan eich prosiect yn newid safle marchnad lafur pobl mewn ffordd barhaus, gan eu gosod mewn sefyllfa gryfach i sicrhau swyddi eraill pan ddaw'r prosiect i ben.

Er enghraifft:

- Sut fyddwch yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau parhaus yn rhan hanfodol o'r prosiect?
- Sut fydd yn ehangu hygyrchedd sefydliadau addysgiadol?

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Cydnherth:</p> <p><i>Cenedl sy'n cynnal a chynyddu amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at genedl Gydnherth dylem fod yn meddwl am ecosystemau sy'n cynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol drwy gynnig cyfleoedd i bobl fwynhau natur, rhannu manau yn yr awyr agored a chryfhau eu cysylltiadau cymdeithasol â'u cymunedau.</p> <p>Ystyriwch bwysigrwydd treftadaeth a mynediad i weithgareddau hamdden, a'r modd y gall mynediad i natur adfer iechyd, a phwysigrwydd cymunedau cydlynol.</p>	<p>Pwysigrwydd treftadaeth a mynediad i weithgareddau hamdden;</p> <p>adfer iechyd drwy gael mynediad i natur;</p> <p>pwysigrwydd cymunedau cydlynol.</p>	<p>Sut fydd eich prosiect yn cynyddu neu'n lleihau mynediad i, ac ansawdd manau agored gwyrdd?</p>	<p>Sut mae'r manau agored gwyrdd sy'n agos at eich prosiect ar hyn o bryd yn helpu cymunedau i ddod at ei gilydd a bondio? Sut fydd eich prosiect yn adeiladu ar y manteision hyn?</p> <p>A fedrai eich prosiect gynnwys seilwaith gwyrdd? Beth arall fedrech chi ei wneud i gynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol?</p>
	<p>Wrth weithio tuag at genedl Gydnherth dylem fod yn meddwl am ecosystemau sy'n cynorthwyo cydnherthedd economaidd, i amddiffyn a gwella cyfleoedd i bobl weithio a chynhyrchu mewn dull cynaliadwy.</p> <p>Ystyried pwysigrwydd adeiladu cyflogaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a chynnal cymunedau cynhyrchiol hyfyw anhrefol lle gall pobl leol ffynnu.</p>	<p>Adeiladu cyflogaeth gynaliadwy mewn cymunedau gwledig ac arfordirol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol;</p> <p>cynnal cymunedau cynhyrchiol hyfyw anhrefol lle gall pobl leol ffynnu.</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn adeiladu ar, ac yn datgloi cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd ledled Cymru?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn cynorthwyo cydnherthedd economaidd yn y Gymru wledig e.e. yn y sector amaethyddol?</p>	<p>Sut fydd eich prosiect yn amddiffyn a gwella ecosystemau sy'n cynorthwyo gweithgaredd economaidd yng Nghymru?</p> <p>Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut fydd yn effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth mewn bywyd gwyllt a gwarchodaeth? Sut fydd yn effeithio ar/sut fedrai wella bywoliaethau mewn cymunedau gwledig i bobl o bob oed ac o bob cefndir e.e. ansawdd arfordiroedd a thraethau, ac adnoddau amaethyddol e.e. pridd, peillio a draeniad rheoledig?

Cydnherth:

Cenedl sy'n cynnal a chynyddu amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).

Wrth weithio tuag at genedl Gydnherth dylem fod yn meddwl am ecosystemau sy'n cynorthwyo cydnherthedd ecolegol, gan wneud amgylchedd Cymru'n fwy hunangynhaliol, a galluogi Cymru i addasu'n well i newidiadau megis y newid yn yr hinsawdd.

Ystyriwch y dewisiadau ar gyfer medru addasu i amgylchedd/hinsawdd sy'n newid, tueddiadau amgylcheddol y dyfodol a defnyddio adnoddau'n effeithlon a chymesur.

Angen addasu i dueddiadau amgylcheddol y dyfodol (e.e. y newid yn yr hinsawdd). A defnyddio adnoddau'n effeithlon a chymesur.

Sut fydd y prosiect hwn yn datblygu datrysiadau arloesol i ddarpariaeth seilwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i gydnherthedd amgylcheddol a seilwaith gwyrdd?

[Seilwaith Gwyrdd](#)
[Catalydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru](#)

Sut fydd y prosiect hwn yn integreiddio'r 'egwyddor ragofalus' lle na wyddys beth fydd tueddiadau amgylcheddol ac effeithiau ar ecosystemau?

Sut fydd eich prosiect yn gwella bioamrywiaeth (dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), gan hybu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy?

- Sut fydd eich prosiect yn effeithio'n uniongyrchol ar ecosystemau? Er enghraifft: A fydd yn tarfu ar fannau bridio pwysig neu lwybrau mudo anifeiliaid? A yw'n torri ar draws unrhyw safleoedd o arwyddocâd amgylcheddol dynodedig?
- Sut fydd eich prosiect yn ychwanegu at iechyd, cyrhaeddiad a maint y boblogaeth y gall ecosystemau eu cynorthwyo? e.e. amddiffyn ardaloedd bywyd gwylt a buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd?
- Sut fydd eich prosiect yn effeithio'n anuniongyrchol ar ecosystemau cyfagos? A fydd yn cynyddu llygredd golau, gan niweidio gallu tylluanod cyfagos i hela?
- A fydd ailblannu coedwigoedd mewn mannau eraill yn disodli'r gwasanaethau a ddarperir gan goedwig aeddfetach? A fydd eich prosiect yn gwrthio ecosystemau dros drothwy y byddent mewn perygl o ddymchwel wrth fynd tu hwnt iddo?
- Sut fydd y prosiect hwn yn helpu Cymru i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, effeithiau llifogydd cynyddol a digwyddiadau tywydd eithafol?

www.theccc.org.uk

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd Llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Iachach:</p> <p><i>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael eu maxsimeiddio a lle mae dealltwriaeth o ddewisiadau ac ymddygiadau sy'n fanteisiol i iechyd yn y dyfodol.</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at Gymru iachach dylem fod yn meddwl sut yr ydym yn defnyddio'n dealltwriaeth o benderfynyddion iechyd meddwl, iechyd corfforol a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i newid y penderfyniadau a wneir gennym.</p> <p>Ystyriwch ddsbarthiad anghyfartal problemau amgylcheddol megis llygredd sŵn a llygredd awyr sy'n effeithio'n negyddol ar bobl a lleoedd.</p> <p>Ystyriwch bwysigrwydd ffactorau ehangach megis cysylltedd cymdeithasol, mynediad da i gyfleoedd a gwasanaethau a gwaith da, i iechyd a llesiant Wrth weithio tuag at Gymru iachach dylem fod yn meddwl am y modd y mae angen i ni ddatblygu'r seilwaith sy'n galluogi pobl i wneud dewisiadau iachach.</p>	<p>osbarthiad anghyfartal problemau amgylcheddol megis llygredd sŵn a llygredd awyr a'u heffeithiau negyddol.</p> <p>Tueddiadau iechyd a fydd yn cysylltu â newidiadau amgylcheddol yn y dyfodol (e.e. tywydd eithafol); pwysigrwydd ffactorau ehangach i lesiant iechyd corfforol a meddyliol a llesiant megis cysylltedd, swyddi da, mynediad i gyfleoedd a gwasanaethau.</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd meddwl ac iechyd corfforol a llesiant pobl o bob oed?</p>	<p>Sut fydd eich prosiect yn effeithio ar ansawdd aer? Sut fydd y newidiadau hyn yn cael eu dosbarthu rhwng gwahanol ardaloedd, gan wella neu amharu ar anghydraddoldebau iechyd?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn effeithio ar iechyd meddwl, yn ystod y cyfnod adeiladu ac wedi hynny yn ei weithrediad o ddydd i ddydd, er enghraifft cynyddu straen a gofid y bobl sy'n byw yn lleol?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol iechyd a llesiant, a thrwy hynny'n atal afiechyd?</p> <p>Ystyriwch sut y gallai eich prosiect gael ei drwytho gan dystiolaeth o ffynonellau megis Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd - crynodebau tystiolaeth</p>

Iachach:

*Cymdeithas lle mae
llesiant corfforol a
meddyliol pobl yn cael
eu maxsimeiddio a
lle mae dealltwriaeth
o ddewisiadau ac
ymddygiadau sy'n
fanteisiol i iechyd yn
y dyfodol.*

Ystyriwch anghydraddoldeb incwm a'r angen am gadwyni cyflenwi carbon isel yng nghynhyrchiad bwyd. Hefyd ystyriwch gyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar leihau anghydraddoldebau iechyd.

Anghydradd-oldebau incwm;

Yr angen am gadwyni cyflenwi carbon isel yng nghynhyrchiad bwyd;

cyrff cyhoeddus sy'n gweithio i leihau anghydradd-oldebau iechyd a darpariaeth bwyd iach;

cyfleoedd ymarfer corff a theithio llesol.

Sut fydd y prosiect hwn yn annog neu'n anghymell pobl o bob oed a chefnidiroedd i wneud dewisiadau iachach ac dewisiadau ymddygiadau?

Sut fydd y prosiect hwn yn amddiffyn a gwella mynediad lleol i fannau agored o ansawdd da ar gyfer adfywiad, adferiad ac ymarfer corff? Er enghraifft, ychwanegu llwybrau cyhoeddus newydd, llwybrau beicio, cerdded a marchogaeth, traethau glân a chyfleoedd eraill ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored megis rhedeg, nofio.

Sut fydd y prosiect hwn yn creu ac yn effeithio ar gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a theithio llesol?

Sut fydd y prosiect hwn yn effeithio ar gadwyni cyflenwi lleol i wella mynediad fforddiadwy i gynnyrch cynaliadwy, iach a ffres?

Sut fydd y prosiect hwn yn galluogi dealltwriaeth ac/neu ddarpariaeth dewisiadau bywyd iach?

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd Llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Mwy cyfartal:</p> <p><i>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at Gymru fwy cyfartal dylem fod yn meddwl am y modd yr ydym yn defnyddio gwariant yn strategol i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol, daearyddol ac economaidd.</p> <p>Ystyriwch rôl bwysig amrywiaeth ddiwylliannol yn yr ymgais i greu diwylliant bywiog, y berthynas rhwng iechyd ac anghydraddoldeb, a pha mor werthfawr i Gymru fyddai Cymru sy'n datblygu gwell sgiliau a swyddi.</p>	<p>Rôl amrywiaeth ddiwylliannol wrth greu diwylliant bywiog;</p> <p>y berthynas rhwng iechyd a chydraddoldeb;</p> <p>yr angen i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd swyddi yng Nghymru.</p>	<p>Sut gaiff y prosiect hwn ei ddatblygu mewn ffordd sy'n cydnabod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach.</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn darparu lifer ar gyfer gwyrddroi anfanteision hirdymor, gan gynorthwyo grwpiau o dan anfantais mewn dulliau sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n osgoi trosglwyddo llwyth o adnoddau cyhoeddus i grŵp bychan o sefydliadau buddiant neu unigolion?</p>	<p>A yw'r prosiect wedi ei sefydlu mewn man lle mae angen rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad? Sut mae hyn yn cysylltu â'r materion a amlygwyd gan yr asesiad Llesiant ar gyfer ardal eich prosiect?</p> <p>Sut rydych chi wedi nodi ac ystyried sut y bydd y cynllun yn dwyn cyfleoedd i ardaloedd o amddifadedd lluosog dwys?</p> <p>Pwy sy'n elwa fwyaf o'r prosiect hwn? Er enghraifft, mae pobl dlawd yn debygol o elwa mwy o drafnidiaeth gyhoeddus, ynni fforddiadwy, a mannau agored cyhoeddus a mwynderau.</p> <p>Ar bwy mae'r prosiect hwn yn effeithio'n negyddol – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? A ellir osgoi'r effeithiau hyn, ac os na ellir eu hosgoi sut y gellid cynnig datrysiad addas?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn effeithio ar grwpiau ymylol neu grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, er enghraifft, Pobl Dduon, Asiaidd, pobl o leiafrifoedd ethnig; menywod, pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a phobl anabl? Mae gan nifer o awdurdodau rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal Asesiadau Effaith Canllawia i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru</p>

Mwy cyfartal:

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Wrth edrych ymlaen at **Gymru fwy cyfartal** dylem fod yn meddwl am y modd y mae **angen i ni ymgodymu â chrynhoed cyfoeth a phŵer ar y brig sydd wedi methu “treiddio i lawr”**

Ystyriwch yr effaith y gallai dosraniad pŵer mwy cyfartal ei gael ar ddewisiadau Cymru i ymgodymu â dirywiad ecolegol ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chynorthwyo datblygiad economi mwy ffyniannus wedi ei ddsbarthu'n ddaearyddol? Meddylwch hefyd am y Dulliau o Weithio, yn arbennig 'Ymgyfraniad'.

Wrth weithio tuag at **Gymru fwy cyfartal**, dylem fod yn meddwl am y modd y mae **angen i ni fynd i'r afael â thlodi, diffyg cyfoeth a chyfleoedd i'r rhai llai breintiedig yn ein cymdeithas, a hybu cyfleoedd cyfartal.**

Ystyriwch yr angen i wella addysg a chyflogaeth a chyfleoedd, gan ymgodymu â thâl isel, ac alinio gwelliannau mewn amodau materol i ffyrdd iach o fyw.

Yr effaith y gallai dosraniad pŵer mwy cyfartal ei gael ar bŵer a chyfoeth a dewisiadau Cymru i ymgodymu â dirywiad ecolegol ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chynorthwyo datblygiad economi mwy ffyniannus wedi ei ddsbarthu'n ddaearyddol?

Yr angen i ennyn ymgyfraniad pobl leol mewn dull arwyddocaol (gweler 'ymgyfraniad' o dan y Tabl Dulliau o Weithio uchod)

Angen gwella cyfleoedd addysg a chyflogaeth; ymgodymu â thâl isel, ac alinio gwelliannau mewn amodau materol i ffyrdd iach o fyw.

Sut fydd y prosiect hwn yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn dull democrataidd a chyfartal, gan sicrhau bod lleisiau a barn yn cael eu clywed yn hytrach na chaniatáu i leisiau pwerus ddomineiddio?

Ystyriwch er enghraifft, ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a pha grwpiau sydd â mynediad i'r rhai sy'n eu gwneud.

Sut fydd y prosiect hwn yn ymgysylltu â mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr yn ei gadwyni cyflenwi?

Sut fydd y prosiect hwn yn cynyddu adnoddau ychwanegol mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog, e.e. cyflogaeth, cyfleusterau cyhoeddus i adeiladu cyfalaf cymdeithasol, seilwaith o ansawdd da megis ysgolion a gofal iechyd?

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd Llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Cymunedau cydlynol:</p> <p><i>Cymunedau hyfyw, diogel â chysylltiadau da</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at gymunedau mwy hyfyw dylem fod yn meddwl am y modd y mae angen i ni fedru darparu nwyddau sylfaenol, gwasanaethau a swyddi lleol.</p> <p>Ystyriwch sut y gall hyn gynorthwyo ffyrdd carbon isel o fyw, swyddi gweddus lleol, a manau deniadol i fyw ynddynt.</p>	<p>Sut fedr hyn gynorthwyo ffyrdd carbon isel o fyw, swyddi gweddus lleol, a manau deniadol i fyw ynddynt?</p>	<p>Sut fydd eich prosiect yn cynorthwyo cymunedau i fod yn fwy cydlynol, yn hyfyw yn lleol, i fod â chysylltiadau da, ac i fod yn ddiogel a deniadol?</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn effeithio ar, neu'n gwella mynediad i, a hygyrchedd amwynderau ar raddfa leol?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn darparu swyddi hirdymor?</p>
	<p>Wrth weithio tuag at Gymru â chysylltiadau da dylem fod yn meddwl am gynorthwyo pobl i fedru cyrchu amwynderau sy'n helpu cymunedau i gysylltu â'u hunain a darparu cysylltiadau da â rhannau eraill o'r wlad ar gyfer gweithgareddau hamdden a thwristiaeth fewnol.</p> <p>Ystyriwch yr angen am swyddi lleol, cadwyni cyflenwi lleol, cyfleoedd i ddatblygu celfyddydau lleol, cerddoriaeth, diwylliant ac ati.</p>	<p>Angen am swyddi lleol, cadwyni cyflenwi lleol, cyfleoedd i ddatblygu celfyddydau lleol, cerddoriaeth, diwylliant ac ati.</p>		<p>Sut fydd y prosiect hwn yn cynorthwyo amwynderau lleol ac yn cryfhau cysylltiadau cymdeithasol?</p> <p>Er enghraifft, a fydd yn gwneud busnesau ac amwynderau yn fwy neu yn llai hyfyw?</p> <p>Sut fydd cysylltiadau trafnidiaeth gwell yn effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar amrywiol grwpiau?</p>

Cymunedau cydlynol:

*Cymunedau
hyfyw, diogel â
chysylltiadau da*

Wrth weithio tuag at **gymunedau diogelach** dylem fod yn meddwl am y modd yr ydym yn cynorthwyo **pobl i deimlo'n ddiogel, a chael teimlad o berthyn a chymorth yn eu cymunedau.**

Ystyriwch sut mae anghydraddoldeb yn effeithio ar bwy fedr deimlo'n ddiogel mewn mannau agored cyhoeddus ac o dan ba amgylchiadau.

Ym mha fodd y mae anghydraddoldeb yn effeithio ar bwy fedr deimlo'n ddiogel mewn man agored cyhoeddus ac o dan ba amgylchiadau?

Sut fydd eich prosiect yn cynorthwyo cymunedau i fod yn fwy cydlynol, yn hyfyw yn lleol, i fod â chysylltiadau da, ac i fod yn ddiogel a deniadol?

Sut fydd y prosiect hwn yn gwneud i fannau agored cyhoeddus deimlo'n ddiogelach ac yn fwy cyfeillgar yn arbennig i blant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, menywod a grwpiau eraill ac yn sicrhau mannau agored cyhoeddus amrywiol a bywiog.

Os ydy'r prosiect hwn yn creu man agored cyhoeddus newydd e.e. parciau a choedwigoedd - sut fydd pobl leol yn ymgyfrannu yn ei reolaeth i adeiladu cysylltiadau cymdeithasol a chynyddu cydlynid lleol?

Sut fydd y prosiect hwn yn cynorthwyo'r themâu allweddol o fewn y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru e.e. datblygu cymunedau cyfeillgar i oed a dementia?

Wrth weithio tuag at gymunedau deniadol yng Nghymru dylem fod yn ystyried sut rydym yn cynnig **cymdogaethau unigryw sy'n adlewyrchu cymeriad lleol, bywyd da, lle mae pobl yn awyddus i fyw ac yn canfod lleoedd fel rhai sy'n cynnal bywyd da.**

Ystyriwch sut y gall bod yn yr awyr agored, mewn safleoedd treftadaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a gweithgareddau hamdden, celfyddydau/ cerddoriaeth/diwylliant bywiog ac amrywiol.

Ystyriwch hefyd y Dulliau o Weithio - yn arbennig Ymgyfraniad.

Sut fedr mannau yn yr awyr agored,

safleoedd treftadaeth a gweithgareddau diwylliannol ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a hamdden, celfyddydau/ cerddoriaeth/diwylliant bywiog lleol amrywiol?

Sut ellir ymgyngori mewn dull ystyrlon â phobl leol am eu dyheadau a'u hanghenion ar gyfer yr ardal?

Sut fydd y prosiect hwn yn creu cymdogaethau sy'n ddymunol i fyw a gweithio ynddynt? Er enghraifft, seilwaith sy'n ei gwneud yn haws i symud o gwmpas yn lleol (e.e. llwybrau beicio); mannau agored gwyrdd o ansawdd da; seilwaith gwyrdd; dylunio da.

Sut fydd y prosiect hwn yn dylunio'r nodweddion hyn mewn partneriaeth â'r gymuned i gwrdd â'u hanghenion a'u dyheadau ar gyfer yr ardal/gofod? Gallai hyn gynnwys y cysyniad dylunio, dylunio celfi stryd, ac ymgyfraniad artistiaid lleol yn ogystal â thrigolion.

Sut fydd y prosiect hwn yn cynyddu apêl mannau agored lleol, tra'n gwneud yn iawn am unrhyw effeithiau negyddol posibl?

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd Llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Diwylliant bywiog:</p> <p><i>Cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgar-eddau hamdden.</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at Gymru sy'n fywiog yn ddiwylliannol dylem fod yn ystyried sut yr ydym yn cynorthwyo cymunedau a ffyrdd o fyw sy'n gynaliadwy, fel rhan o Gymru Ile mae amrywiaeth ddiwylliannol yn ffynnu mewn ffordd sy'n cydnabod ac sy'n hybu diwylliant unigryw cymunedau Cymreig a'u hiaith.</p> <p>Ystyriwch effeithiau anghydraddoldeb ar hyfywedd cymunedol, ar allu grwpiau amrywiol i gyfranogi mewn bywyd diwylliannol, a chyrrff eraill (e.e. cynllunio defnydd tir) y gallwch weithio gyda hwynt i gynorthwyo'r nod hwn.</p>	<p>Effeithiau anghydraddoldeb ar hyfywedd cymunedol, ar allu grwpiau amrywiol i gyfranogi mewn bywyd diwylliannol, a chyrrff eraill (e.e. cynllunio defnydd tir) y gallwch weithio gyda hwynt i gynorthwyo'r nod hwn.</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn cyfrannu tuag at Gymru sy'n fywiog yn ddiwylliannol, gan gydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl ar gymunedau Cymreig a'r iaith Gymraeg?</p>	<p>Ystyriwch effeithiau uniongyrchol y prosiect hwn.</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn cadw a gwella cyfleoedd</p> <p>diwylliannol a chyfleoedd iaith e.e.darparu canolfannau newydd, e.e. stiwdios celf/ cerddoriaeth/dawns, cyfleusterau chwaraeon, gwyliau celfyddydol, amgueddfeydd/orielau, canolfannau cerddoriaeth fyw, sinemâu, gan warchod a chynnal a chadw'r rhai presennol; cynorthwyo artistiaid lleol ac adeiladwyr traddodiadol drwy ennyn eu hymgyfraniad yn nyluniad y prosiect a darnau newydd mewn mannau agored cyhoeddus.</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn hygyrch i bawb, e.e yn fforddiadwy, trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch, gyda mynediad i bobl anabl.</p> <p>Ystyriwch effeithiau anuniongyrchol y gallai'r prosiect hwn ei gael ar gynaliadwyedd diwylliannau lleol amrywiol. Mae hyn yn ymwneud ag ymddygiadau y gallai eich prosiect eu sbarduno. Er enghraifft, a allai hyn wyrdroi marchnadoedd tai lleol drwy annog pobl i berchenogi ail gartrefi? Neu effeithio ar hyfywedd canolfannau cyfleusterau lleol (ystyriwch y rhai sy'n darparu ar gyfer grwpiau lleiafrifol, e.e. canolfannau pobl Lesbiaidd, Hoyw, Daurywiol, Trawsrywiol yn ogystal â chanolfannau prif ffrwd), neu ymleiddio'r iaith Gymraeg?</p>

Diwylliant bywiog:

Cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgar-eddau hamdden.

Wrth weithio tuag at Gymru â diwylliant bywiog, dylem fod yn ystyried sut yr ydym yn cynorthwyo **gwarchodaeth a gwelliant safleoedd naturiol, diwylliannol a threftadaeth hanesyddol.**

Ystyriwch y swyddi a ddarperir gan safleoedd treftadaeth - yn arbennig mewn ardaloedd gwledig - a phwysigrwydd mynediad cyfartal i dreftadaeth.

Swyddi a ddarperir gan safleoedd treftadaeth - yn arbennig mewn ardaloedd gwledig;

pwysigrwydd mynediad cyfartal i dreftadaeth.

Sut fydd y prosiect hwn yn cyfrannu tuag at Gymru sy'n fywiog yn ddiwylliannol, gan gydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl ar gymunedau Cymreig a'r iaith Gymraeg?

Sut fydd y prosiect hwn yn effeithio ar safleoedd naturiol cyfagos neu safleoedd treftadaeth eraill?

Pa effaith a gaiff eich prosiect ar dirlun cyffredinol yr ardal?

Sut fydd y prosiect hwn yn cynyddu mynediad i safleoedd treftadaeth lleol?

Wrth weithio tuag at **Gymru â diwylliant bywiog** dylem fod yn meddwl am y modd yr ydym yn **cynorthwyo'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden sydd ar gael yn lleol, yn hygyrch a fforddiadwy.**

Ystyriwch bwysigrwydd adeiladu cysylltiadau cymdeithasol, amrywiaeth ffyniannus, a lleoliadau llewyrchus a fedr gynorthwyo llawer o weithgareddau ar gyfer creu bywyd cyhoeddus bywiog.

Pwysigrwydd adeiladu cysylltiadau cymdeithasol, amrywiaeth ffyniannus, a lleoliadau llewyrchus a fedr gynorthwyo llawer o weithgareddau ar gyfer creu bywyd cyhoeddus bywiog.

Sut fydd y prosiect yn cynyddu mynediad i'w holl weithgareddau celfyddydol, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden?

A fedr y cynllun wneud buddsoddiadau ychwanegol sy'n cynnwys mwy o gelfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden fforddiadwy a hygyrch i bobl leol?

Agwedd ar y Ddeddf/ diffiniad	Enghreifftiau o elfennau allweddol y Ddeddf	Meysydd Llesiant cysylltiedig, i gynorthwyo integreiddio	Cwrdd â'r Ddeddf ar lefel strategol	Dylunio eich cynnig i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf
<p>Cyfrifol yn fyd-eang:</p> <p><i>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn talu sylw i b'un a fyddai gwneud y fath beth yn gyfraniad cadarnhaol ai peidio i lesiant byd-eang a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).</i></p>	<p>Wrth weithio tuag at Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang dylem fod yn ystyried sut yr ydym yn cynorthwyo llesiant byd-eang drwy ddefnyddio adnoddau mewn dull cynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cyfrannu at wybodaeth fyd-eang ar gynaliadwyedd a hefyd ddatblygu ac addysgu ein dinasyddion byd-eang ni ein hunain.</p> <p>Ystyriwch er enghraifft, yr angen am economïau a ffyrdd o fyw carbon isel a defnydd cymesur o adnoddau, a dealltwriaeth o effaith ein bywydau ni ein hunain ar weddill y byd.</p>	<p>Yr angen am economïau a ffyrdd o fyw carbon isel; defnydd cymesur o adnoddau; a dealltwriaeth o effaith ein bywydau ni ein hunain ar weddill y byd.</p>	<p>Sut fydd y prosiect hwn yn cynnig arweinyddiaeth fyd-eang neu arloesedd mewn seilwaith cynaliadwy?</p> <p>Sut fedr eich prosiect ddilyn modelau seilwaith cynaliadwy arloesol cenedlaethol neu ryngwladol?</p> <p>Sut fydd y prosiect hwn yn cyfrannu at system lle gellir cwtdogi ar yr adnoddau a ddefnyddir a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr.</p> <p>Sut mae'r prosiect hwn, hyd yn hyn, wedi adeiladu ar arfer gorau mewn cynaliadwyedd o bob cwr o'r byd, a sut y bydd yn parhau i wneud hynny?</p>	<p>Ystyriwch:</p> <p>Beth mae Cymru'n ei ddwyn i mewn o weddill y byd e.e. prynu mewn dull cyfrifol (cynaliadwy a moesol/prynu o ffynonellau Masnach Deg, cadwyni cyflenwi byd-eang), maint yr adnoddau y mae Cymru'n eu defnyddio (yn natblygiad y prosiect ac ymddygiadau a ysgogir ganddi).</p> <p>A beth mae Cymru'n ei gyfrannu i'r byd yn seiliedig ar ein nodweddion unigryw e.e datblygu technolegau cynaliadwy, carbon isel, rhoi enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y gall prosiectau seilwaith integreiddio a hybu llesiant ehangach. Yn gyffredinol sut mae eich prosiect yn effeithio ar weddill y byd - ôl troed carbon, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn ei gynhyrchiant a'r defnydd a wneir ohono?</p>